OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1394 (Cy.137)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*21 Mai 2002*
Yn dod i rym - -	*30 Medi 2002*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 49 a 63(3) o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986(**1**), ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 49(4) o'r Ddeddf ag unrhyw gymdeithasau awdurdodau lleol, a chynrychiolwyr athrawon, yr oedd yn ymddangos bod ganddynt ddiddordeb yn y mater ac unrhyw bersonau eraill yr oedd yn ymddangos y byddai'n ddymunol ymgynghori â hwy, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

RHAN I —
RHAGYMADRODD

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 30 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diddymu

2. Mae Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999(**3**) yn cael eu diddymu.

Dehongli

3.—(1) Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1986 p.61. Diwygiwyd adran 49 gan baragraffau 36 a 101 o Atodlen 12 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), gan baragraff 23 o Atodlen 8 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13) a chan baragraff 14 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Diwygiwyd adran 63(3) gan baragraff 107 o Atodlen 19 i Ddeddf Addysg 1993 (p.35). Ar gyfer materion sydd i'w rhagnodi, gweler adran 67(3) o Ddeddf 1986 (a ddiwygiwyd gan baragraff 66 o Atodlen 37 i Ddeddf Addysg 1996 (p.56), ac adran 579(1) o'r Ddeddf honno).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672)

(**3**) O.S. 1999/2888 (Cy.25).

ystyr "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yw athro neu athrawes a gyflogir mewn dim mwy na dwy ysgol, gan awdurdod addysg lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, ond nid yw'n cynnwys athro neu athrawes a gyflogir o dan gontract cyfnod penodol os yw'r cyfnod yn llai na blwyddyn;

ystyr "corff llywodraethu" ("*governing body*") mewn perthynas ag ysgol yw corff llywodraethu'r ysgol, ac ystyr "llywodraethwr" ("*governor*") yw aelod o'r corff llywodraethu hwnnw;

ystyr "cynghorydd allanol" ("*external adviser*") yw person y mae ei enw yn ymddangos ar restr o gynghorwyr sy'n ymwneud â gwerthuso athrawon sy'n cael ei chadw gan awdurdod addysg lleol;

ystyr "datganiad amcanion" ("*statement of objectives*") yw'r datganiad ysgrifenedig o amcanion a gofnodir o dan reoliad 12(3) neu reoliad 26(3) yn ôl fel y digwydd;

mae i "datganiad gwerthuso" ("*appraisal statement*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 16(10) neu, yn ôl fel y digwydd, gan reoliad 30(11);

ystyr "diwrnod ysgol" ("*school day*") yw diwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod;

mae "pennaeth" ("*head teacher*") yn cynnwys pennaeth gweithredol;

ystyr "ysgol" ("*school*") yw ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig; ac

ystyr "ysgol sydd â chymeriad crefyddol" ("*school which has a religious character*") yw ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sydd wedi'i dynodi fel ysgol â chymeriad o'r fath o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**4**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn—

(a) at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn; a

(b) at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

Y ddyletswydd i werthuso

4.—(1) Mae'n ddyletswydd ar gorff llywodraethu a phennaeth ysgol i arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn gyda golwg ar sicrhau bod perfformiad athrawon ysgol a phenaethiaid wrth gyflawni eu dyletswyddau yn yr ysgol yn cael ei werthuso'n rheolaidd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn achos athro neu athrawes ysgol neu bennaeth a gyflogir mewn dwy ysgol, rhaid i'w perfformiad yn y ddwy ysgol gael ei werthuso ac felly mae "ysgol" ym mharagraff (1) i gael ei ddarllen fel cyfeiriad at y ddwy ysgol.

Adroddiad y pennaeth

5. O leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ysgol rhaid i'r pennaeth gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu ynglŷn â'r ffordd y mae gwerthuso'n gweithredu yn yr ysgol o dan y Rheoliadau hyn, effeithiolrwydd gweithdrefnau gwerthuso'r ysgol, ac anghenion hyfforddi a datblygu yr athrawon ysgol a'r pennaeth.

(**4**) 1998 p.31.

RHAN II —

GWERTHUSO PENAETHIAID

Cymhwyso Rhan II

6. Mae rheoliadau 7 i 19 yn gymwys ar gyfer gwerthuso penaethiaid yn unig.

Penodi gwerthuswyr a chynghorydd allanol

7.—(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol benodi yn werthuswyr pennaeth dau neu dri o lywodraethwyr, y mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn llywodraethwr sefydledig yr ysgol os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir heb gymeriad crefyddol.

(2) Caiff y corff llywodraethu benodi gwerthuswr newydd yn lle unrhyw werthuswr presennol ar unrhyw adeg.

(3) Ni ellir penodi unrhyw lywodraethwr sy'n athro neu'n athrawes neu'n aelod arall o'r staff yn yr ysgol yn werthuswr i'r pennaeth.

(4) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol hefyd benodi cynghorydd allanol mewn perthynas â gwerthuso pennaeth.

(5) Caiff y corff llywodraethu benodi cynghorydd allanol newydd yn lle unrhyw gynghorydd allanol presennol ar unrhyw adeg.

Y cylch gwerthuso

8.—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, ac i reoliad 9, rhaid i'r corff llywodraethu benderfynu amseriad y cylch gwerthuso ar gyfer pennaeth yr ysgol.

(2) Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (3) a rheoliad 9(3) blwyddyn fydd hyd cylch gwerthuso.

(3) Yn achos cylch gwerthuso cyntaf pennaeth o dan y Rheoliadau hyn sydd yn ei swydd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, caiff y corff llywodraethu benderfynu y bydd hyd y cylch gwerthuso hwnnw'n gyfnod heblaw blwyddyn ar yr amod nad yw'n dod i ben yn gynharach na 30 Tachwedd 2003 nac yn hwyrach na 31 Mydref 2004

(4) Pan fyddant wedi dechrau, bydd y cylchoedd gwerthuso ar gyfer pob pennaeth yn barhaus.

(5) Ni fydd penodiad gwerthuswr neu gynghorydd allanol newydd yn peri bod cylch gwerthuso pennaeth yn dechrau eto.

Cylch gwerthuso newydd

9.—(1) Os bydd pennaeth yn symud i swydd pennaeth mewn ysgol arall, bydd y cylch gwerthuso yn dechrau eto.

(2) Pan ddaw athro neu athrawes ysgol (nad yw'n bennaeth) yn bennaeth (yn yr un ysgol neu mewn un arall) fel bod rheoliadau 7 i 19 yn gymwys i'w gwerthusiad, bydd yr amseriad ar gyfer eu cylch gwerthuso yn cael ei benderfynu o'r newydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan y corff llywodraethu o dan reoliad 8(1).

(3) Pan fydd cylch gwerthuso pennaeth yn dechrau eto o dan baragraff (1), neu'n cael ei benderfynu o'r newydd o dan baragraff (2), caiff y corff llywodraethu benderfynu y bydd hyd cylch gwerthuso cyntaf y pennaeth yn ei swydd newydd yn gyfnod o lai na blwyddyn.

Cylch gwerthuso cyntaf

10. Rhaid i'r corff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw cylch gwerthuso cyntaf pennaeth yr ysgol sydd yn ei swydd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn dechrau'n hwyrach na 31 Ionawr 2002.

Gweithdrefnau gwerthuso

11. Yn ddarostyngedig i reoliadau 12 i 16, rhaid i gorff llywodraethu ysgol benderfynu'r gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso'r pennaeth yn yr ysgol.

Cynllunio gwerthusiad a phennu amcanion

12.—(1) Cyn y cylch gwerthuso neu ar ddechrau'r cylch gwerthuso, rhaid i'r holl werthuswyr, y cynghorydd allanol a'r pennaeth gyfarfod er mwyn cynllunio'r gwerthusiad a pharatoi ar ei gyfer a cheisio cytuno ar amcanion y mae'n rhaid iddynt gynnwys amcanion ynghylch—

(a) arwain yr ysgol a'i rheoli; a

(b) cynnydd y disgyblion.

(2) Os na chytunir ar amcanion o dan baragraff (1), rhaid i'r gwerthuswyr nodi'n ysgrifenedig yr amcanion hynny y maent yn credu eu bod yn briodol, a chaiff y pennaeth ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.

(3) Rhaid i'r amcanion y cytunir arnynt o dan baragraff (1), neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (2), a sylwadau ysgrifenedig y pennaeth, gael eu cofnodi mewn datganiad amcanion ysgrifenedig.

Adolygu amcanion

13.—(1) Caiff amcanion pennaeth eu hadolygu ar unrhyw adeg yn ystod y cylch gwerthuso os yw'r pennaeth a'r holl werthuswyr yn cytuNo.

(2) Os yw amcanion pennaeth yn cael eu hadolygu o dan baragraff (1)—

(a) rhaid diwygio'r datganiad amcanion i ddangos yr adolygiadau y cytunwyd arnynt;

(b) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at amcanion pennaeth eu darllen fel cyfeiriadau at yr amcanion fel y'u hadolygwyd; ac

(c) caiff cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ddatganiad amcanion y pennaeth eu darllen fel cyfeiriadau at y datganiad amcanion fel y'i diwygiwyd.

Monitro cynnydd

14.—(1) Mae'n rhaid i'r holl werthuswyr a'r pennaeth mewn cyfarfod a gynhelir o dan reoliad 12(1) geisio cytuno ar y gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad y pennaeth yn erbyn yr amcanion y cytunir arnynt o dan reoliad 12(1) neu os nad oes amcanion wedi'u cytuno, yr amcanion sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan reoliad 12(2).

(2) Os na chytunir ar weithdrefnau o dan baragraff (1), rhaid i'r gwerthuswyr nodi'n ysgrifenedig y gweithdrefnau hynny ar gyfer monitro perfformiad y pennaeth y maent yn credu eu bod yn briodol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) ni chaiff gwerthuswr gael gwybodaeth, p'un ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n berthnasol i berfformiad y pennaeth oddi wrth unrhyw berson arall oni bai bod y pennaeth yn cytuno neu bod yr wybodaeth wedi'i chael yn unol â'r gweithdrefnau y cytunir arnynt o dan baragraff (1) neu os nad oes gweithdrefnau wedi'u cytuno y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi'n ysgrifenedig o dan baragraff (2).

(4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i unrhyw wybodaeth y mae gan werthuswr hawl i'w chael o dan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn.

Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

15.—(1) Ar ddiwedd y cylch gwerthuso neu yn agos i ddiwedd y cylch gwerthuso rhaid i'r holl werthuswyr, y cynghorydd allanol a'r pennaeth gynnal adolygiad gwerthuso, gyda'r bwriad—

(a) o adolygu perfformiad y pennaeth a nodi ei gyraeddiadau ac unrhyw agweddau lle byddai cynnydd pellach yn ddymunol;

(b) o asesu i ba raddau y mae'r pennaeth wedi bodloni'r amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion; ac

(c) o nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddi a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny.

(2) Rhaid i'r dyddiad y mae adolygiad gwerthuso i gael ei gynnal gael ei benderfynu gan y gwerthuswyr, ond rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod ysgol o rybudd (ysgrifenedig) i'r pennaeth am y dyddiad hwnnw.

(3) O leiaf pum diwrnod ysgol cyn yr adolygiad gwerthuso, caiff y pennaeth gyflwyno i'r gwerthuswyr—

(a) asesiad y pennaeth ei hun o'i berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion;

(b) manylion unrhyw hyfforddiant y mae'r pennaeth yn credu y byddai'n ddymunol ei gael o ystyried yr asesiad hwnnw; ac

(c) manylion unrhyw ffactorau y mae'r pennaeth yn credu eu bod wedi effeithio ar ei berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd;

a rhaid i unrhyw asesiad o'r fath a gwybodaeth arall a gyflwynir i'r gwerthuswyr o dan y paragraff hwn gael eu hystyried yn yr adolygiad gwerthuso.

(4) Cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl pob adolygiad gwerthuso rhaid i'r holl werthuswyr baratoi datganiad ysgrifenedig yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y gwerthuswyr a'r pennaeth yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, a rhaid cofnodi mewn atodiad i'r datganiad (sef atodiad a fydd yn rhan o'r datganiad) yr anghenion hyfforddi a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd yn yr adolygiad.

(5) Gall adolygiad gwerthuso o dan baragraff (1) gael ei gyfuno â chyfarfod o dan reoliad 12 mewn perthynas â'r cylch gwerthuso canlynol.

(6) Rhaid i'r gwerthuswyr roi copi o'r datganiad a baratoir o dan baragraff (4) i'r pennaeth cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl yr adolygiad gwerthuso.

(7) Caiff y pennaeth, cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o'r datganiad hwnnw, ychwanegu ei sylwadau ysgrifenedig ato, a bydd y sylwadau hynny yn rhan o'r datganiad a baratoir o dan y paragraff hwnnw.

Apelau

16.—(1) Mae gan bennaeth hawl i apelio yn erbyn ei werthusiad ef neu ei gwerthusiad hi o dan y Rheoliadau hyn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o ddatganiad gwerthuso o dan reoliad 15(6).

(2) Caiff apêl ei gwneud yn ysgrifenedig i'r corff llywodraethu.

(3) Cadeirydd y corff llywodraethu fydd y swyddog apêl mewn perthynas ag apêl o'r fath, ond os yw cadeirydd y corff llywodraethu wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad sy'n destun yr apêl, rhaid i'r corff llywodraethu benodi un neu ddau lywodraethwr nad ydynt wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad hwnnw yn swyddogion apêl mewn perthynas ag apêl o'r fath.